# Pontio a chynnydd disgyblion; nodweddion arfer effeithiol

Lle mae arfer yn fwyaf effeithiol, mae ysgolion a chlystyrau:

- Yn meddu ar weledigaeth glir o ran sut byddant yn sicrhau bod addysgu a dysgu yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd effeithiol ar draws y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
- Yn meddu ar gynlluniau pontio manwl sy'n ystyried cynnydd y cwricwlwm ac addysgu ac yn mynd i'r afael yn ofalus â sut bydd y clwstwr yn cydweithio i sicrhau bod gwybodaeth, medrau a phrofiadau disgyblion yn datblygu'n systematig ac yn gynyddol.
- Yn datblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd trwy bartneriaeth gyfartal a chydweithio.
- Yn blaenoriaethu gweithio â'i gilydd i sicrhau bod cwricwla o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn cyd-fynd â'i gilydd yn dda a bod dysgu disgyblion yn adeiladu'n systematig o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
- Yn rhoi prosesau systematig ar waith i rannu a defnyddio gwybodaeth gan ysgolion cynradd i gefnogi cynnydd a lles disgyblion yn yr ysgol uwchradd.
- Yn targedu dysgu proffesiynol tuag at ddeall cynnydd y cwricwlwm a datblygu cyd-ddealltwriaeth o addysgeg effeithiol.
- Yn datblygu parhad mewn dulliau addysgu ac arferion yr ystafell ddosbarth rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, lle bo hynny'n briodol, i helpu i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd parhaus.
- Yn datblygu a gweithredu strategaethau ar draws ysgolion er mwyn sicrhau bod gan ddisgyblion rôl weithredol yn eu dysgu eu hunain ac yn datblygu'r medrau i fonitro, rheoleiddio ac asesu eu hunain a dod yn ddysgwyr mwy effeithiol.
- Yn monitro a gwerthuso dysgu a lles disgyblion ar draws y cyfnod pontio er mwyn helpu i sicrhau bod disgyblion yn datblygu'n gynyddol.
- Yn cynllunio a gweithredu rhaglenni sefydlu cynhwysfawr a theilwredig, dros gyfnod, i gefnogi hyder a lles disgyblion a hwyluso pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
- Yn teilwra pontio a sefydlu i ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, lle bo hynny'n briodol, er mwyn sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer ysgol uwchradd.
- Yn gwerthuso effaith strategaethau pontio a sefydlu yn ofalus ac yn mireinio a gwella ymagweddau er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi cynnydd a lles disgyblion yn effeithiol.